EXD669 (Cy) (GL)

Llywodraeth Cymru

Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) – Rheoliad 10(4)
Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) – Erthygl 5(7)

# Trwydded gyffredinol ar gyfer symud anifeiliaid o Barth Rheoli Dros Dro y Tafod Glas yng Nghymru i Barth dan Gyfyngiadau'r Tafod Glas yn Lloegr i fyw

Yr wyf i, sef arolygydd milfeddygol a benodwyd i'm swydd gan Weinidogion Cymru at ddibenion Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) ac at ddibenion Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) yn caniatáu, yn unol â'r amodau a ddisgrifir yn y Rhestr isod, symud anifeiliaid o Barth Rheoli Dros Dro'r Tafod Glas yng Nghymru i Barth dan Gyfyngiadau'r Tafod Glas yn Lloegr i fyw.

Mae'r drwydded hon yn ddilys o 16:00 ar 10/10/2025

Arolygydd Milfeddygol

Llofnodwyd gan: Karim Hachimi

Amser a Dyddiad: 16:00 10/10/2025

Arolygydd Milfeddygol a benodwyd gan Weinidogion Cymru.

# Rhestr o'r Amodau

Rhaid i unrhyw berson sy'n symud anifail o dan awdurdod y drwydded hon gydymffurfio â'r amodau canlynol.

1. Bydd anifail yr awdurdodir ei symud gan y drwydded hon yn cael ei symud o safle o fewn parth rheoli dros dro y Tafod Glas yng Nghymru yn uniongyrchol i'r parth dan gyfyngiadau'r tafod glas yn Lloegr.

2. Rhaid i safle'r cyrchfan fod naill ai'n ganolfan werthu neu gasglu neu yn ddaliad cofrestredig gyda rhif daliad (CPH).

3. **Argymhellir** bod yr anifail a symudir o dan awdurdod y drwydded hon yn cwblhau cynllun brechu sylfaenol brechiad seroteip 3 firws y tafod glas ar gyfer yr anifail hwnnw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. **Argymhellir** bod yr anifail hwnnw yn cael ail frechiad fel sy'n ofynnol gan daflen wybodaeth y cynnyrch, neu os oes 6 mis wedi mynd heibio ers dyddiad cwblhau'r cynllun brechu sylfaenol. Gellir ymgynghori â'r SPCs ar: https://www.vmd.defra.gov.uk/ProductInformationDatabase. Rhaid rhoi gwybod i gov.uk pan fydd anifeiliaid sy'n symud o dan awdurdod y drwydded hon wedi cael eu brechu arhttps://www.gov.uk/guidance/report-your-use-of-the-bluetongue-serotype-3-btv-3-vaccine.

4. Ni chaniateir symud anifail o dan y drwydded hon os yw'r safle y symudir yr anifail ohono neu safle'r cyrchfan yn destun hysbysiad cyfyngu ar safle'r tafod glas.

5. Rhaid i'r trwyddedai gofnodi'n gywir symudiadau anifeiliaid o'r safle y symudir ohono i safle'r cyrchfan ar y platfform symud anifeiliaid perthnasol gan gynnwys rhif adnabod yr anifail.

6. Yn union cyn y symudiad, rhaid i'r trwyddedai neu ei filfeddyg preifat archwilio unrhyw anifail sy'n cael ei symud o dan awdurdod y drwydded hon am arwyddion clinigol o haint y tafod glas. Os bydd anifail a archwilir neu anifail arall yn yr un safle yn dangos arwyddion a allai fod yn arwydd o haint y tafod glas, ni chaniateir symud unrhyw anifail o'r safle hwnnw o dan y drwydded hon. Dylid ynysu'r anifail sy'n dangos yr arwyddion oddi wrth weddill y fuches/diadell. Rhaid i chi roi gwybod i APHA ar unwaith os amheuir bod achos o'r tafod glas.

7. Rhaid i'r trwyddedai sicrhau, yn union cyn llwytho'r anifeiliaid, fod gofynion amod 8 wedi eu bodloni.

8. Ar ôl dadlwytho anifeiliaid, a chyn i'r cerbyd adael safle'r cyrchfan, rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod gofynion amod 8 wedi eu bodloni.

9. Y gofynion y cyfeirir atynt yn amodau 6 a 7 yw:

   a) Bod rhan y cerbyd lle delir yr anifeiliaid yn cael ei glanhau'n ddigonol, gan sicrhau ei bod yn rhydd o ddeunydd organig a allai ddenu gwybed, cyn ei thrin yn unol ag is-baragraff b.
   b) Rhaid i ran y cerbyd lle delir yr anifeiliaid fod wedi ei thrin â phryfladdwr yn unol â'r label.
   c) Rhaid gadael i unrhyw bryfladdwr a ddefnyddir sychu'n llwyr cyn llwytho unrhyw anifeiliaid.

10. Yn unol â'r amodau a amlinellir yn Nhrwydded Gyffredinol Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (O.S. 2003/1966 (Cy.211) ar gyfer symud gwartheg, defaid, geifr a moch, caniateir stopio yn y lleoliadau canlynol:

    a. Gorsafoedd petrol ar draffyrdd

b. Cilfan swyddogol (ar gefnffordd/priffordd)
c. Meysydd parcio i lorïau neu fannau tebyg

11. Rhaid i'r trwyddedai gadw, am gyfnod o 2 flynedd o leiaf, gofnodion o:

    a. Nifer yr anifeiliaid a symudwyd o dan y drwydded hon,
    b. Rhifau adnabod yr anifeiliaid a symudwyd o dan y drwydded hon,
    c. Manylion cywir y safle y symudwyd yr anifeiliaid iddo.
    d. Unrhyw bryfladdwr a ddefnyddiwyd at ddiben amod 8.

12. Wrth symud unrhyw beth o dan awdurdod y drwydded hon, rhaid i unigolyn gario nodyn cludo. Rhaid i'r nodyn cludo gynnwys:

    a. Rhywogaeth a nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu symud
    b. Dyddiad y symudiad
    c. Enw'r cludwr,
    d. Cyfeiriad y safle y dechreuodd y symudiad ohono (y farchnad neu'r ganolfan gasglu)
    e. enw a chyfeiriad y sawl sy'n derbyn yr anifeiliaid, ac
    f. enw, cyfeiriad a rhif CPH safle'r cyrchfan

13. Rhaid i'r symudiad i safle'r cyrchfan fod yn uniongyrchol, ar briffyrdd cyhoeddus, ac ar y llwybr y bernir sy'n debygol o fod y cyflymaf sydd ar gael.

14. Ni chaniateir casglu na gollwng anifeiliaid ar safleoedd eraill.

15. Amod o bob symudiad yw bod yr anifail wedi'i dagio'n briodol yn unol â'r rheoliadau adnabod da byw cyfredol ar gyfer y rhywogaeth a bod dogfennau symud priodol wedi'u cwblhau yn cyd-deithio â'r anifail. Rhaid i symudiadau gydymffurfio â gofynion gwaharddiadau symud ac adrodd arferol.

## Nodiadau

1. Ystyr "y Rheoliadau" yw Rheoliadau'r Tafod Glas (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd) (O.S. 2008/1090) (Cy. 116)

2. Ystyr "y Gorchymyn" yw Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) (O.S. 2003/399) (Cy. 56)

3. Ystyr "parth dan gyfyngiadau'r tafod glas" yw parth dan gyfyngiadau a ddatganwyd o dan reoliad 13 o Reoliadau'r Tafod Glas 2008 (fel y'u diwygiwyd) (O.S. 2008/962).

4. Ystyr "Parth Rheoli Dros Dro y Tafod Glas" yw parth rheoli dros dro gafodd ei ddatgan o dan reoliad 10(1) o'r Rheoliadau ac ardal reoli dros dro gafodd ei datgan dan Erthygl 5(1) o'r Gorchymyn.

5. Ystyr “anifail” yw anifail sy’n cnoi cil, neu gamelid. Mae anifeiliaid sy'n cnoi cil yn cynnwys gwartheg, defaid, geifr a cheirw, ymhlith anifeiliaid eraill. Mae camelidau yn cynnwys camelod, lamas ac alpacas, ymhlith anifeiliaid eraill.

6. Ystyr "trwyddedai" yw'r person sy'n symud anifeiliaid o dan y drwydded hon.

7. Nid yw'r drwydded hon yn drech nag unrhyw gyfyngiadau symud eraill ar anifeiliaid o dan ddeddfwriaeth arall.

8. Mae cyfeiriadau at argymell cwblhau cynllun brechu sylfaenol brechlyn seroteip feirws 3 y tafod glas yn golygu cwblhau'r cwrs brechu gan ddefnyddio'r dos a argymhellir yn nhaflen wybodaeth y cynnyrch, a bydd gofyn bod dechrau'r cyfnod imiwnedd wedi mynd heibio fel a ganlyn:

   a) Ar gyfer Bluevac-3 a Bultavo-3, mae'r imiwnedd yn dechrau 3 wythnos (21 diwrnod) ar ôl cwblhau'r cynllun brechu sylfaenol ar gyfer defaid a gwartheg.
   b) Ar gyfer Syvazul mae'r imiwnedd yn dechrau 4 wythnos (28 diwrnod) ar ôl cwblhau'r cynllun brechu sylfaenol ar gyfer defaid, a 3 wythnos ar gyfer gwartheg.

9. Nid yw’r gofynion a nodir yn y drwydded hon yn effeithio ar rwymedigaethau’r defnyddiwr o dan Orchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) (Rhif 3) 2003 (fel y'i diwygiwyd) (O.S. 2003/1968 (Cy.213) i lanhau a diheintio’r cerbyd.

10. Rhaid cadw at holl ofynion Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 (fel y’i diwygiwyd) (O.S. 2003/1966 (Cy.211) a holl ofynion trwyddedau'r Gorchymyn hwnnw.

11. Rhaid i berson sy’n symud unrhyw beth o dan awdurdod y drwydded hon roi ei enw a’i gyfeiriad, dangos y nodyn cludo a chaniatáu i rywun wneud copi o'r nodyn cludo neu o ran ohono, os gofynnir iddo wneud hynny gan filfeddyg, arolygydd neu un o swyddogion eraill Gweinidogion Cymru.

12. Rhaid i’r pryfladdwr a ddefnyddir ar gerbydau sy’n cael eu defnyddio i gludo anifeiliaid sy’n cael eu symud o dan awdurdod y drwydded hon fod yn effeithiol yn erbyn pryfed sy’n hedfan, yn ddelfrydol rhywogaethau o’r genws Culicoides (gwybed), a rhaid ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr. Yn ddelfrydol dylai gynnwys y cynhwysyn actif pyrethrin, neu byrethroidau synthetig. Yn ddelfrydol, dylid ei ddefnyddio ar ffurf chwistrell a dylai fod yn addas

i’w ddefnyddio o dan do. Rhaid iddo fod wedi ei awdurdodi ar y pryd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) fel cynnyrch bioladdol i’w ddefnyddio yn y DU.

Dylai'r trwyddedai ddarllen cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer defnyddio'r cynnyrch ar gerbyd a ddefnyddir i gludo anifeiliaid sy'n cael eu symud o dan awdurdod y drwydded hon, a chadw atynt.

13. Os ydych chi’n amau bod achos o glefyd hysbysadwy yng Nghymru, rhaid ichi roi gwybod i’r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ("APHA") ar unwaith, ar 03003 038 268. Os ydych chi'n amau bod achos o glefyd hysbysadwy yn Lloegr, rhaid i chi roi gwybod amdano ar unwaith drwy ffonio Llinell Gymorth Gwasanaethau Gwledig Defra ar 03000 200 301.
14. Rhaid cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol arall.
15. Cysylltwch ag APHA ar y rhif uchod, neu â’ch Awdurdod Lleol, i gael rhagor o gyngor ynghylch mesurau bioddiogelwch ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall a all fod yn berthnasol.

*Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw ofyniad neu waharddiad mewn datganiad a wneir o dan Reoliadau 2008 yn cyflawni trosedd a gall fod yn atebol os caiff ei farnu'n euog i ddirwy lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchar am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis neu i'r ddau (yn rhinwedd rheoliad 25 o Reoliadau 2008).*

*Bydd unrhyw berson sy'n torri unrhyw ofyniad neu waharddiad mewn datganiad a wneir o dan Orchymyn 2003 yn euog o drosedd a gall fod yn atebol os ceir euogfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i'r ddau (yn rhinwedd adran 72 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981).*